Cofnodion cyfarfod rithiol 13 Ebrill 2021 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Cynog Prys	
Lliwen Griffith-Williams	Nerys John	
Iwan Huws	Emyr Gareth	
Eifion Williams	Dafydd Huws	
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd yn ffurfiol y cyfarfod misol gan y Cadeirydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Llŷr Evans, Casi Roberts, Iestyn Harris a'r Cynghorydd Sir Gareth Griffiths. Derbyniwyd dau ymddiswyddiad oddi wrth Elliw Williams a Mei Gwilym. Diolchodd y Cadeirydd am eu cyfraniad. Felly mae dwy sedd wag ar y Cyngor bydd angen eu llenwi. Mis nesaf bydd y Cyfarfod blynyddol. Gobeithir cynnal y Cyfarfod hwnnw yn y neuadd, cadarnhau'r lleoliad ar ddechrau mis nesaf ar ôl ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Adroddiad gwariant am fis Mawrth. Hwn oedd yr adroddiad olaf y flwyddyn. Roedd nifer o sieciau heb eu cyflwyno. Derbyniwyd yr adroddiad. Mae anfoneb am waith ffensio ar lwybr Cerrig yr Afon wedi ei dalu, er hynny mae angen cadarnhau mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw hon oherwydd bod rhan arall angen ei gynnal bellach. Mae pris o £606 + TAW wedi ei dderbyn. Penderfynwyd os bydd cadarnhad bod y ffens yn gyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned yna byddai'r Clerc yn cael cadarnhau gyda'r Contractwr i'r gwaith gael ei gwblhau.	**Swyddog Ariannol**
4.2	Cafwyd manylion costau cludo'r gwastraff o'r fynwent gan Gyngor Gwynedd. Derbyniwyd y gost flynyddol o £503 ar gyfer 2021 – 2022.	**Swyddog Ariannol**
4.3	Penderfynwyd bod y Cyngor yn parhau a aelodaeth Unllais Cymru. Cadarnhawyd i'r pris aelodaeth gael ei dalu. Gofynwyd os yw'r Cyngor yn cymryd digon o fantais o'r gwasanaeth hwn. Dywedwyd bod cynhadledd rhithiol yn Mis Mai. Gofynwyd i'r Clerc fynychu'r cyhadledd. Y Clerc i drefnu archebu lle.	**Swyddog Ariannol**
4.4	Dywedodd y Cadeirydd bod trafodaeth gyfyngedig wedi bod mis diwethaf ynglŷn ag ymddeoliad y Swyddog Ariannol. Roedd cytundeb mewn egwyddor bod waith y Swyddog Ariannol yn cael ei drosglwyddo i'r Clerc. Roedd modd o gael trosglwyddo'r awenau cyllidol yn esmwyth i'r Clerc erbyn mis Medi gyda digon o amser i sicrhau amodau a chontract	

	gwaith newydd. Gobeithir gwneud hyn erbyn mis Medi gyda mis Awst yn wyliau ac yn amser delfrydol i wneud hyn. I helpu hyn bwriedir yn y cyfarfod blynyddol i sefydlu Is-bwyllgor cyflogaeth a chyllidol.	
4.5	Mae angen dau cynghorydd i edrych a'r y cyfrifon cyn eu bod yn cael eu cyflwyno i'r archwiliwr mewnol sef Iestyn Harris a Lliwen Griffith-Williams	**Swyddog Ariannol IH/LlG-W**
4.6	Mae anfoneb am yr offer cae chwarae wedi ei dderbyn £12.432. Eglurwyd bod yr offer yma wedi ei ddewis gan Playdale oherwydd roedd yn cyflawni anghenion yr Is-bwyllgor Prosiectau ar gyfer Cae Chwarae Lan y Môr. Nid oedd cyflenwr arall yn gallu rhoi'r un offer, felly nid oedd modd cael prisiau eraill. Hefyd oherwydd bod gwaith Cynllun Atal Llifogydd yn bodoli ar y lleoliad roedd contractwyr y gwaith yn gallu gwneud y gwaith sifil ar gyfer yr offer yn y Cae Chware ac yn sgil hyn yn arbed oddeutu £5,000 i'r Cyngor Cymuned.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Mawrth 2021 fel rhai cywir.	**CLERC**
5.2	Yn codi o'r cofnodion: Cae Chwarae – dim gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Llifon Foulkes o Gyngor Gwynedd – Y Clerc i sicrhau derbyn y wybodaeth erbyn mis Mehefin er mwyn trafod yr eitm mabwysiadu'r Cae Chwarae gan y Cyngor Cymuned. Meinciau - gweler eitem meinciau CCTV – anfoneb heb ei dderbyn, y Clerc I sicrhau derbyn anfoneb. Llwybrau - mae cadarnhad wedi ei dderbyn oddi wrth Adran Cefnffyrdd yn cadarnhau gwaith cynnal ar y llwybrau sydd o few neu ofal hwy. Y Clerc i anfon manylion y llwybrau sydd angen sylw. Bydd hyn yn sicrhau bod y Cyngor Cymuned a'r Adran Cefnffyrdd gyda'r un manylion ar y llwybrau sydd o dan eu cyfrifoldeb. Mae arwyddion saethau (waymarkers) gan y Cyngor Cymuned bellach, bydd angen penderfynu sut i osod yr arwyddion. Bydd angen hawl y tirfeddianwyr i weithredu. Y Cyngor Cymuned yn wneud y gwaith lle mae tirfeddianwyr yn fodlon a lle mae anawsterau derbyn caniatâd bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu. Angen trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor. Cynghorydd Nerys John i drefnu. Mae ymgynghoriad gan Cyngor Gwynedd ar hawliau tramwy yn bodoli ar hyn o bryd. Linc yr ymgynghoriad i gael ei osod ar y wefan a hefyd ar dudalen Facebook y Cyngor er mwyn i drigolion y pentref gael ymateb. Y Clerc i ofyn a oes modd i'r Cyngor Cymuned ymateb.	**CLERC** **CLERC** **CLERC** **NJ** **CLERC/EG**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	

6.1	Rhif Cais : C21/0271/20/DT Lleoliad: 12 Ger Y Nant, Y Felinheli, LL56 4PF Bwriad : Cais ar gyfer codi estyniad deulawr ochr ynghyd ac estyniad unllawr to gwastad i gefn yr eiddo **DIM GWRTHWYNEBIAD - ond y Clerc i anfon at Wasanaethau Cynllunio Gwynedd yn mynegi bod pryder ynglŷn â cheisiadau cynllunio lle mae modurdy yn cael ei newid i ystafell ac o ganlyniad gellir cael effaith a'r cyfleusterau parcio'r eiddo a fyddai wedyn yn cael effaith a'r barcio ar ffyrdd y pentref.**	**CLERC**
6.2	Rhif Cais: C21/0200/20/LL Lleoliad: Fferm Parciau, Caernarfon, LL55 1TS Bwriad : Cais rhyddhau amod 5 o ganiatâd cynllunio rhif C21/0041/20/LL ar gyfer cynllun tirlunio/plannu coed **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC**
6.3	Rhif Cais : C21/0294/20/DT Lleoliad: Manchester House, 32 Stryd Bangor, Felinheli, LL56 4JD Bwriad: Teras to yng nghefn yr eiddo. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC**
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Mae gwaith cynnal ar fainc ger Stepiau Cei wedi ei gwblhau. Cafwyd wybodaeth nad oedd y Contractwr eisiau tal am y gwaith – roedd yn ei roi fel rhodd i'r gymuned. Y Clerc i anfon iddo i ddolch am y gwaith a'r rhodd.	**CLERC**
7.2	Nid oes llawer o waith wedi ei wneud ers y cyfnod clo ar gyflwyno cysgodfan gyferbyn a Cwrt Menai. I ddyddiad nid oedd y Cyngor yn rhy hoff o gyflwyno cysgodfan gwyrdd fel sydd yn barod ar Ffordd Caernarfon. Y Cynghorydd Daniel Williams i wneud ymholiadau ar gyfer cael dyluniad cysgodfan bren "Canti Lever". Drwy drafod y mater hwn dywedyd bod dŵr yn arllwys i'r ffordd yn y lleoliad hwn sydd yn achosi peryg o rew yn y gaeaf - gofynnwyd i'r Clerc afon a Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r mater. Hefyd i atgoffa'r adran bod waith Sylfaen ar ochr chwith Allt Dinas yn fater o breeder sydd byth wedi derbyn sylw. Y Clerc i anfon i atgoffa'r adran o'r mater yma.	**DW**
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Agen trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor - Cynghorydd Nerys John i drefnu. Y clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â'r sefyllfa bresennol llwybr Afon Heilyn.	**CLERC**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Nid oedd y Cynghorydd Casi Roberts yn bresennol i adrodd ar gael garddwr ar gyfer Safle Moria.	**CLERC – CR**
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Cynllun Lan y Môr bron wedi ei gwblhau. Dim ond gwaith snags ar ôl. Mae darn olaf ger y parc angen cael barriers er mwyn sicrhau nad oedd cerddwyr yn torri ardraws. Mae OBR	**EG,**

	wedi erbyn cyfarwyddiadau i osod 5m o fariers perthnasol (visirails). Snags eraill i'w ail osod rhai o'r cerrig ar ben y wal sydd yn rhydd. Mae'r ffens gyferbyn a'r garddfon wedi eu symud a gobeithir bydd y gwair yn ffynnu. Mae'r gwair yn y lleoliadau eraill i weld wedi cymryd yn dda. Mae rhan olaf y Cynllun yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd gogyfer gosod giât ger 26 Snowdon Street.	
10.2	Cae Chwarae – dim dyddiad pendant i'r gwaith gael ei wneud hyd yma. Gwybodaeth sydd wedi ei dderbyn yw bod y tir dal i fod yn wlyb. Y Clerc i anfon i gael gwybod pa bryd fydd y gwaith yn cael ei wneud oherwydd bydd angen hysbys'r cyhoedd bod y cae chwarae yn cael ei gau i wneud y gwaith Sylfaen ar gyfer yr offer.	**Clerc**
10.3	Toiledau – cafwyd bris gogyfer rhoi scim o dywod a sment ar wyneb adeilad y toiledau cyhoedus sef £800. Roedd angen y driniaeth yma ar yr adeilad er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cael ei baentio ac i fod o ansawdd da. Roedd y Cyngor yn fodlon ar y pris a chytunwyd i'r gwaith gael ei wneud cyn gynted a mae modd cyn gwyliadu hanner tymor.	**DW**
10.4	Cynllun Llifogydd Cymunedol - cafwyd adroddiad llafar ar y cynllun gan y Cynghorydd Daniel Williams. Mae 25 enwau gwirfoddolwyr wedi eu derbyn gyda 21 ohonynt wedi anfon eu manylion cyswllt a chaniatâd defnyddio'r manylion yn ôl. Mae dwy ardal heb warden sef yr Hen gei Llechi ag Allt Dinas. Mae Swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu hysbysu o'r manylion diweddaraf a bydd ffurflenni'r gwirfoddolwyr yn cael eu sganio i'w sylw. Rhan nesaf o gwblhau'r cynllun i'w drafftio prosesau ar gyfer un parth yna bydd is-bwyllgor yn cael ei drefnu cyn symud ymlaen i gael cyfarfod a'r gwirfoddolwyr i'r parth hwnnw. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel peilot ac os yn foddhaol bydd yn cael ei gyflwyno i'r holl barthau eraill.	
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Y neuadd yn parhau ar gau oherwydd y cyfyngiadau clo. Mae gwneud ymholiadau pwy o'r defnyddwyr cyson sydd angen defnydd o hyd nes mis Medi. Y Cynghorydd Daniel Williams i wneud hyn. Gobeithir cynnal cyfarfod blynyddol mis nesaf a gall hyn gael ei ddefnyddio fel peilot ar gyfer ail agor y neuadd. Angen cael gwybod beth fydd yn cael ei ganiatáu mewn perthynas â newidiadau i'r cyfyngiadau. Ni fydd angen yr Ofalwraig ar gyfer y cyfarfod blynyddol. Bydd y Cynghorydd Daniel Williams yn ail asesu'r sefyllfa cyn galw ar yr is-bwyllgor. Dim adroddiad i'w gyflwyno am y cloc.	**DW**
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC**
13.0	Cae Ysgol - Dim gwybodaeth i law.	**CLERC/CR/IH**

	Mae'r Ysgol wedi bod yn brysur yn cynhyrchu ffilmiau ynglŷn â'r ymarferiad o beidio a chodi baw ci. Mae angen rhoi'r ffilmiau ar wefan y Cyngor a hefyd a'r dudalen Facebook y Cyngor. Y Clerc i siarad â'r Cynghorydd Casi Roberts i edrych os oedd modd i wneud hyn. Angen gofyn i'r Cynghorydd Iestyn Harris ofyn am ganiatâd yr ysgol/rhieni er mwyn cael defnyddio'r cynyrchiadau.	
14.0	Japanese Knotweed – y mater yn nwylo Geraint Jones Cyngor Gwynedd.	
	Wal ger y Marina - dim gwybodaeth bellach i law.	
15.0	– nid yw perchnogaeth y wal wedi ei ddatrys. Bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud rhywfaint o waith ar y wal.	
16.0	Tir ar yr hen reilffordd - mater hwn yn derbyn sylw gan Mr Glyn Jones ei hun ac adran Tai ag Eiddo Cyngor Gwynedd.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:30	
Llofnod:		**Dyddiad:**